Fy Hoff Emyn - *Gair Disglair Duw*

Llun: Lord the light of your love is shining.
Hawlfraint: www.mainstreamworship.com/

"Rhif yr emyn 228". Pan glywaf y geiriau hyn o'r Pulpud neu'r Sêt Fawr mae 'nghalon yn llonni bob tro. 'Rwyf wrth fy modd â chyfieithiad Casi Jones o eiriau Graham Kendrick. Geiriau grymus, perthnasol sydd yn cynnig arweiniad a gobaith i Gristnogion hen ac ifanc. Gyda'r pwyslais ar gyfraniad goleuni Duw, mae'r emyn yn fodd i'n cynnal a'n tywys ar hyd llwybrau heriol bywyd.

Graham Kendrick sydd yn gyfrifol am y dôn afaelgar hefyd. Dyma gerddoriaeth sy'n chwyrlio yn fy mhen am ddiwrnod cyfan ar ôl canu'r emyn yn yr oedfa foreol. Mae'n fy ngorfodi i daro fy nhroed ar lawr a symud ychydig yn fy sêt bob tro.

Fel dishgled o siocled poeth ar ddiwrnod oer gaeafol, dyma emyn sy'n cynhesu'r galon, ac fel geiriau caredig cyfaill ar adeg anodd, mae'n emyn sy'n cysuro'r enaid a rhoi gwên ar wyneb!

Dad, dy gariad yn glir ddisgleiria,
trech na'r t'wyllwch, yn glir ddisgleiria;
Iesu, goleuni'r byd, cofia ninnau,
ti yw'r gwir a'n rhyddhau o'n cadwynau;
Grist, clyw ein cri, goleua ni.

Dof o'th flaen di, O Arglwydd sanctaidd,
o'r cysgodion i'th olau euraidd;
gwaed y groes a ddaw â mi i'r goleuni,
chwilia fi a glanha fi o'm bryntni:
Grist, clyw fy nghri, goleua fi.

Er mor danbaid yw dy ddisgleirdeb,
ni fydd raid i mi guddio f 'wyneb;
a phob dydd wrth im syllu a syllu
daw fy mywyd yn ddrych i'th oleuni,
gwir olau gwiw, gair disglair Duw.

Cytgan: *Air disglair Duw,*
dyro d'olau i Gymru heddiw,
tyrd, Ysbryd Glân,
rho dy dân i ni:
rhed, afon gras,
taena gariad ar draws y gwledydd,
dyro dy air
a goleuni a fydd.

Graham Kendrick *cyf.* Casi Jones
Hawlfraint ©1987 Make Way Music, PO Box 263, Croydon CR9 5AP
© 1991 Make Way Music

Eleri Morgan